**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-LG/2498/17

Nick Ramsay, AC
Cadeirydd – Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nick.ramsay@assembly.wales

27 Gorffennaf 2017

Annwyl Nick

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS**
**RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL YNG NGHYMRU**
**YMATEB I'R ADRODDIAD**

Mae'n bleser gen i amgáu copi o ymateb Gweinidogion Cymru i'r adroddiad uchod a fydd yn cael ei osod gerbron y Swyddfa Gyflwyno.

Hoffwn i, ar ran y Cabinet, ddiolch i chi ac i'r Pwyllgor am fynd ati mor drylwyr ac ofalus i gynnal yr ymchwiliad a llunio'r adroddiad.

Cofion

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb i adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru**

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymatebion canlynol i ddeg argymhelliad yr adroddiad. Rydym wedi rhoi nodyn o'r arweinydd sy'n gyfrifol; fodd bynnag, er mwyn cyflenwi'r argymhellion hyn, bydd galw am weithredu trwy bartneriaeth.

**Argymhelliad 1** Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu'n glir yn y strategaeth genedlaethol y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau ar gyfer yr holl bobl sydd ynghlwm wrth reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol er mwyn sicrhau ei bod yn glir pwy sy'n gyfrifol am gyflenwi pob agwedd ar y strategaeth.

**Derbyniwyd** Mae'r argymhelliad hwn yn cyfateb i Argymhelliad 2 adroddiad 2016 Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n eglurhau swyddogaethau a chyfrifoldebau o gwmpas yr arfordir fel rhan o ddiweddariad y Strategaeth Genedlaethol. Mae gwaith i adolygu a diweddaru'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru wedi dechrau. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag Awdurdodau Rheoli Risg i eglurhau swyddogaethau a chyfrifoldebau o gwmpas yr arfordir, gan ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac adroddiad 2016 Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal â gwaith ymchwil sy'n cael ei gynnal ar drefniadau llywodraethu.

Cefndir: Mae cyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'r arfordir wedi'u hamlinellu mewn deddfwriaeth megis Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Deddf yr Amgylchedd 1995, a Deddf Amddiffyn y Glannau 1949. Amlygodd adroddiad 2016 Swyddfa Archwilio Cymru fod angen eglurder ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg sydd ynghlwm wrth reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Cadarnhaodd y dystiolaeth a roddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod awdurdodau'n eglur ynghylch eu swyddogaethau gweithredol (adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, paragraff 10), ond mae rhywfaint o bryder ynghylch perchenogaeth asedau llifogydd ac arfordirol.

Bydd datblygu cronfa ddata o asedau cenedlaethol yn cynorthwyo wrth fynd i'r afael â'r pryderon hyn ynghylch perchenogaeth asedau. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at arweinwyr yr holl awdurdodau lleol ym mis Gorffennaf 2016 i grybwyll pwysigrwydd gweithio i ddod â data asedau llifogydd ynghyd ar draws Cymru. Mae'r gronfa ddata hon wedi cael ei chyflwyno ers ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a bydd yn helpu i ddiffinio cyfrifoldebau ar yr arfordir. Mae'n cael ei chynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac, er mis Mawrth 2017, mae wedi cynnwys data o holl awdurdodau lleol Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am berchenogaeth a chyflwr, gan helpu i ddarparu trosolwg cenedlaethol o asedau perygl llifogydd ac arfordirol. Bydd y gronfa ddata'n parhau i gael ei llenwi wrth i asedau newydd gael eu hychwanegu a bydd yn hysbysu mapiau llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl.

Mae rhaglen ymchwil ar y cyd DEFRA/Asiantaeth yr Amgylchedd/Llywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru (y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 2.6 adroddiad 2016 Swyddfa Archwilio Cymru) wedi asesu prosiect ymchwil yn ddiweddar o ran y trefniadau llywodraethu mewn perthynas â pherygl llifogydd yng Nghymru a Lloegr. Mae disgwyl i'r

gwaith hwn orffen yn ystod gwanwyn 2018. Bydd Llywodraeth Cymru'n cadw golwg fanwl am ei bod yn bosibl y gall helpu i roi eglurder pellach ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau arfordirol fel rhan o ddiweddariad y Strategaeth Genedlaethol.

**Amserlen ac Arweinwyr**
Mae'r gwaith o lenwi'r gronfa ddata asedau cenedlaethol wedi dechrau – Arweinydd: Cyfoeth Naturiol Cymru
Y Strategaeth Genedlaethol i'w chyhoeddi yn ystod haf 2018 – Arweinydd: Llywodraeth Cymru

**Argymhelliad 2** Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliant i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i roi swyddogaeth oruchwylio i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol neu gorff arall yn hytrach na Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig wrth gyflawni'r gwaith o fonitro'r strategaeth genedlaethol.

**Derbyniwyd mewn egwyddor** Yn dilyn archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru, gwnaethom dderbyn yr argymhelliad i adolygu trefniadau adrodd ar Adran 18. Pan fydd wedi'i sefydlu yn ddiweddarach yn 2017, gofynnir i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ystyried opsiynau ar gyfer adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ac archwilio sut y gall ddarparu adolygiad annibynnol neu swyddogaeth oruchwylio o'r adroddiad Adran 18, cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod rhoi'r swyddogaeth oruchwyliol hon i'r pwyllgor yn fodd priodol o wahanu dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru fel Awdurdod Rheoli Risg a'i swyddogaeth ddeddfwriaethol i adolygu'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Genedlaethol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â'r egwyddor o roi swyddogaeth oruchwyliol i'r pwyllgor newydd o ran monitro'r Strategaeth Genedlaethol, ond gellir gwneud hyn heb newid deddfwriaeth.

<u>Cefndir:</u> Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Adran 18) yn nodi cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru i fonitro ac adrodd ar y gwaith o weithredu'r Strategaeth Genedlaethol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru'n gosod cwmpas y gwaith adrodd hwn, ac yn nodi bod angen cynhyrchu'r adroddiadau hynny bob dwy flynedd.  Yn arbennig, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynnydd gan yr awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddiwallu'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol.

Bydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cael ei sefydlu'n ddiweddarach eleni. Bydd gan y pwyllgor rôl fel corff ymgynghorol, gan ddarparu cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet gan Awdurdodau Rheoli Risg ynghylch pob ffynhonnell o lifogydd ac erydu arfordirol.

Mae'r gwahaniad o ran dyletswyddau yng Nghymru eisoes yn amlycach nag yn Lloegr, lle mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn llunio'r Strategaeth Genedlaethol yn ogystal ag yn adrodd yn ei gylch trwy adroddiadau Adran 18.

**Argymhelliad 3** Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi mecanweithiau ar waith i ddarparu sicrwydd bod atebolrwydd ar gyfer holl fannau'r arfordir, ac ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Traethlinau, yn glir a bod y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r holl bobl hynny sy'n gyfrifol am y morlin.

**Derbyniwyd** Mae hyn yn cysylltu â'r angen i eglurhau swyddogaethau a chyfrifoldebau yn Argymhelliad 1.

Mae Cynlluniau Rheoli Traethlinau yn gynlluniau anstatudol sy'n amlinellu'r strategaeth reoli ddewisach ar gyfer ein morlin cyfan. Maent wedi cael eu cynhyrchu gan y Grwpiau Arfordirol, sy'n cynnwys awdurdodau lleol ar yr arfordir, Cyfoeth Naturiol Cymru, a chyrff eraill â diddordeb yn yr arfordir. Gan fod y Grwpiau Arfordirol wedi datblygu'r Cynlluniau Rheoli Traethlinau, maent yn parhau i fod yn y sefyllfa orau i arwain ar a monitro'r gwaith o gyflenwi camau gweithredu pob cynllun.

Mae'r rhain yn "ddogfennau byw" ac, wrth gymeradwyo pob un ohonynt, pwysleisiodd y cyn-Weinidog bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol â phreswylwyr lleol trwy ysgrifennu at gadeiryddion y Grwpiau Arfordirol yn 2014.

Ymgymerodd Llywodraeth Cymru ag adolygiad o'r Grwpiau Arfordirol ym mis Mai 2016, gan ddilyn Argymhelliad 39 Adolygiad Llifogydd Arfordirol Cymru. Mae Fforwm Grŵp Arfordirol Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o gylch gorchwyl y Grwpiau Arfordirol. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Fforwm Grŵp Arfordirol Cymru i sicrhau bod cylch gorchwyl yr holl Grwpiau Arfordirol yn eglur, gan gynnwys gweithredu Cynlluniau Rheoli Traethlinau, a'i fod yn cael ei gyfathrebu fel rhan o ddiweddariad y Strategaeth Genedlaethol.

**Amserlen:** Strategaeth Genedlaethol i'w chyhoeddi yn ystod haf 2018
**Arweinydd:** Llywodraeth Cymru

**Argymhelliad 4** Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid cyflenwi i ddatblygu pwynt gwybodaeth sengl ar gyfer ymwybyddiaeth llifogydd, megis 'microfan' neu wefan, sy'n cynnwys manylion eglur am swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer ymwybyddiaeth llifogydd.

**Derbyniwyd** Mae codi ymwybyddiaeth o beryglon llifogydd yn waith hynod bwysig yn erbyn un o'r pedwar amcan a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru'n ymroddedig i ddatblygu microfan ac mae wedi ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn iddo arwain ar y prosiect hwn.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod un safle sy'n darparu neges gyson i'r cyhoedd yn bwysig, ac mae wrthi'n gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu microfan sy'n darparu negeseuon clir a chyson i'r cyhoedd ynghylch rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r gwaith sydd ynghlwm wrth hwn yn mynd i gael ei gwmpasu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2017-18.

**Amserlen:** Gwaith cwmpasu yn ystod 2017-18; bydd Llywodraeth Cymru'n diweddaru'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch yr amserlen ar gyfer datblygu'r prosiect ym mis Mawrth 2018.
**Arweinydd:** Cyfoeth Naturiol Cymru

**Argymhelliad 5** Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol ar sail ranbarthol ac yn adrodd yn ôl erbyn mis Ionawr 2018.

**Derbyniwyd** Mae grwpiau rhanbarthol sefydledig eisoes yn gweithio ar lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi adroddiad ar y modd y mae gweithio rhanbarthol eisoes yn digwydd wrth reoli llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a sut y gellir annog hyn ymhellach.

<u>Cefndir:</u> Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n hyrwyddo gweithio rhanbarthol trwy dri grŵp llifogydd rhanbarthol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r holl awdurdodau lleol, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn trafod mesurau rheoli risg ar gyfer llifogydd ac erydu arfordirol yn ogystal â llifogydd o afonydd a dŵr wyneb.

Yn ogystal, mae pum Grŵp Arfordirol rhanbarthol yng Nghymru, sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynlluniau Rheoli Traethlinau a chyflawni'r camau gweithredu a nodir ynddynt (gweler yr ymateb i Argymhelliad 3). Mae'r Grwpiau Arfordirol yn annog Awdurdodau Rheoli Risg i gydweithio i gyflawni'r camau, yn ogystal â rhannu arferion gorau rhwng partïon. Adolygwyd swyddogaeth y Grwpiau Arfordirol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2016 trwy drafodaeth gydag awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac argymhellwyd bod cylch gorchwyl y grwpiau hynny'n cael ei ddiweddaru a'i safoni.

Mae'r Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol yn cynnig cyfleoedd pellach ar gyfer gweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol lle bo'n briodol.

Mae Grŵp Arfordirol Bae Ceredigion yn cynnal cyfarfod blynyddol sy'n cynnwys arweinwyr cabinet cynghorau Ceredigion, Gwynedd a Sir Benfro. Mae hyn yn ategu at gyfarfodydd ymarferwyr trwy godi ymwybyddiaeth o waith parhaus a chynlluniau'r dyfodol ymhlith y bobl sydd ynghlwm wrth benderfyniadau a chyfeiriad gwleidyddol. Gellid annog y math hwn o weithio ar lefel wleidyddol ar gyfer problemau arfordirol yn y Grwpiau Arfordirol eraill. Dylai hyn gael ei arwain gan Fforwm Grŵp Arfordirol Cymru, sy'n cwrdd yn rheolaidd i rannu arfer gorau.

Mae'r cysylltiadau sefydledig rhwng Awdurdodau Rheoli Risg, Fforwm Grŵp Arfordirol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n helpu i sicrhau dull cyson ac yn annog gweithio rhanbarthol a rhannu swyddogaethau, sy'n digwydd rhwng Gwynedd ac awdurdodau cyfagos. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi'r dasg i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o adolygu gweithrediad y grwpiau, gan adrodd am enghreifftiau o weithio rhanbarthol, ynghyd ag unrhyw gyfle i wella, yn arbennig mewn perthynas â nodi buddiau eraill megis twristiaeth a swyddi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Bapur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol, ac mae wrthi'n aros am ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.

**Amserlen:** Adroddiad i'w gynhyrchu erbyn mis Ionawr 2018
**Arweinydd:** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Argymhelliad 6** Mae'r pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu safbwynt polisi o fewn y 12 i 24 mis nesaf sy'n amlinellu amrediad o opsiynau ar gyfer adlinio rheoledig.

**Derbyniwyd** Mae'r argymhelliad hwn yn cyd-fynd ag Argymhelliad 3 adroddiad 2016 Swyddfa Archwilio Cymru. Ers archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru, mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus pan ddywed nad oes un dull hollgynhwysfawr o weithredu tuag at adlinio rheoledig. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwaith i ddatblygu 'pecyn cymorth arfordirol' a fydd yn cefnogi awdurdodau lleol trwy ddarparu canllawiau ac enghreifftiau o arferion gorau y gellir eu haddasu i amodau lleol.

Yn ogystal, bydd diweddariad y Strategaeth Genedlaethol yn 2018 yn amlinellu'r safbwynt polisi o ran sut y dylai Awdurdodau Rheoli Risg ystyried a gweithredu Cynlluniau Rheoli Traethlinau. Yn hyn o beth, bydd Llywodraeth Cymru'n amlinellu ei safbwynt polisi, a fydd yn galluogi gweithredu ar lefel leol, gan ddarparu canllawiau a chymorth trwy'r pecyn cymorth i helpu i wireddu hyn.

Cefndir: Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chyngor Gwynedd i ddeall rhagor am yr opsiynau ar gael i gymunedau sy'n arfer polisi adlinio rheoledig trwy'r gwaith parhaus yn y Friog. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2018, a byddant yn helpu i ddatblygu'r pecyn cymorth.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi ymchwiliadau pellach i bolisïau'r Cynllun Rheoli Traethlinau yn Nrenewydd yn Notais (Pen-y-bont ar Ogwr) a Niwgwl (Sir Benfro) ac ar gyfer y rhan o'r arfordir rhwng y Rhyl a Thalacre (Sir Ddinbych a Sir y Fflint) ac o'r Borth i Ynys Las (Ceredigion). Bydd y rhain yn helpu hefyd i amlygu arfer gorau y gall eraill ei ddilyn wrth weithredu neu herio'r polisïau yn y Cynlluniau Rheoli Traethlinau, megis adlinio rheoledig.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cwrdd yn ddiweddar â chadeirydd Fforwm y Grwpiau Arfordirol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, a Cyfoeth Naturiol Cymru i helpu i gwmpasu pecyn cymorth addasu'r arfordir. Mae'r gwaith hwn yn y camau datblygu cynnar a bydd yn ceisio cyfraniadau pellach gan adrannau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Tai, Cynllunio a Bioamrywiaeth, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol, i ddarparu canllawiau priodol ar gyfer awdurdodau lleol a chymunedau.

Bydd pecyn cymorth addasu'r arfordir yn cyfannu'r Strategaeth Genedlaethol ac yn darparu cyngor ymarferol ar gyfer ymarferwyr a chymunedau. Bydd yn cwmpasu holl bolisïau'r Cynlluniau Rheoli Traethlinau ac ni fydd yn cyfyngu ei hun i waith adlinio rheoledig yn unig.

**Amserlen:** Mae'r gwaith o baratoi pecyn cymorth yn barhaus a bydd yn cael ei gyflwyno wrth gyhoeddi, neu'n fuan ar ôl cyhoeddi, y Strategaeth Genedlaethol yn 2018.
**Arweinydd:** Llywodraeth Cymru

**Argymhelliad 7** Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n datblygu ac yn sicrhau y gweithredir Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol, sy'n golygu bod yr holl beryglon llifogydd ac erydu arfordirol yn cael eu hystyried ar y cyd fel rhestr â blaenoriaeth.

**Derbyniwyd** Mae'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl bellach yn gweithredu fel ein Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol. Mae'r mynegai'n cynnwys gwybodaeth am y perygl o lifogydd o afonydd, cyrsiau dŵr arferol, y môr a dŵr wyneb. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wastad wedi defnyddio'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl i flaenoriaethu ei raglen. Ers yn hwyr yn 2016, mae data ynglŷn â'r perygl o lifogydd dŵr wyneb wedi cael ei gynnwys ac, ym mis Ionawr 2017, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at yr holl awdurdodau lleol yn gofyn iddynt ddefnyddio'r gofrestr hon hefyd, ynghyd â gwybodaeth leol berthnasol arall, i gefnogi eu ceisiadau am gyllid a gan Fwrdd y Rhaglen.
Wrth ddatblygu'r rhaglen ar gyfer 2018-19 a thu hwnt, rydym yn defnyddio'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl ochr yn ochr â thystiolaeth leol o berygl llifogydd ac achosion o lifogydd. Bydd y rhaglen â blaenoriaeth hon yn ystyried cynlluniau Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â pheryglon o wahanol ffynonellau.

Cefndir: Er bod y gofrestr Cymunedau mewn Perygl yn darparu mynegai llifogydd cenedlaethol, mae'r perygl hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a fodelwyd. O'r herwydd, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd data lleol ynghylch llifogydd hanesyddol, a ddarperir gan yr awdurdodau lleol wrth wneud penderfyniadau am gyllid.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bob amser wedi defnyddio'r mynegai hwn i flaenoriaethu ei raglen waith.

Gyda setliad cyllideb cyfalaf pedair blynedd wedi'i gadarnhau, rydym wrthi'n dod â phiblinell o gynlluniau ynghyd o Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu ar raddfa genedlaethol gan ddefnyddio'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl a thystiolaeth hanesyddol o berygl llifogydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n ystyried trefniadau gwell ar gyfer mapio perygl llifogydd trwy'r Asesiad Perygl Llifogydd Cenedlaethol newydd. Bydd hwn yn dangos peryglon a leddfwyd o lifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb. Ar ôl cwblhau'r asesiad, bydd yn cynnwys gwybodaeth hefyd am achosion hanesyddol o lifogydd. Bydd hyn yn gwella'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl ymhellach, a gallai yn y pen draw gymryd ei lle.

**Amserlen: Cwblhawyd.**
Mae'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl bellach yn gweithredu fel ein Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol.

**Argymhelliad 8** Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried, fel rhan o'r adolygiad strategol, cydbwysedd buddsoddiad cyfalaf/refeniw ar gyfer llifogydd arfordirol a rheoli risg yn y dyfodol, ac yn amlinellu ymrwymiadau refeniw dros gyfnod hirach i ganiatáu mwy o gynllunio strategol.

**Derbyniwyd mewn egwyddor** Rydym yn cydnabod bod cyllid refeniw cyn bwysiced â chyfalaf o ran darparu cyllid ar gyfer cynnal a chadw asedau sydd ohoni, a byddwn yn buddsoddi dros £22 miliwn mewn cyllid refeniw eleni ar gyfer y gwaith o reoli perygl llifogydd a’r arfordir.

Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch y modd y bydd ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei hail-lunio o ganlyniad i'r refferendwm i adael yr UE, ac mae ansicrwydd ynghylch yr effaith ar arian cyhoeddus y DU a chyllideb Cymru yn y tymor hirach. Gyda'r ansicrwydd hwn, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a'r cabinet gyhoeddi cynllun gwario refeniw un flwyddyn yn unig ar gyfer 2017-18 er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ar gyfer gwasanaethau craidd a buddsoddi mewn blaenoriaethau yn y tymor byr iawn.

Am fod mwy o hyder o ran cyllid cyfalaf, darparwyd cynlluniau cyfalaf pedair blynedd ar gyfer ein partneriaid cyflenwi, a fydd yn rhoi sicrwydd ar gyfer buddsoddiadau mwy hirdymor.

Yn unol ag Argymhelliad 1b yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol i ystyried cyfleoedd partneriaeth ariannu posibl.

**Amserlen:** Dylai setliad y gyllideb refeniw gael ei gadarnhau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf erbyn mis Rhagfyr 2017.
**Arweinydd:** Llywodraeth Cymru

**Argymhelliad 9** Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu cynllun tymor canolig/hir (y tu hwnt i 2021) ar gyfer ariannu prosiectau a fyddai'n cael eu cynnwys dan y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol tan 2021.

**Derbyniwyd mewn egwyddor** Mae'r Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol yn rhoi cyfle am fwy o fuddsoddi gan awdurdodau lleol yn y gwaith o reoli perygl arfordirol gyda chyllid yn cael ei ddyfarnu ar gyfer gwaith adeiladu o 2018-21. Rhaglen untro ydyw sy'n defnyddio cyfraddau llog isel a chyllid refeniw tymor hir i alluogi buddsoddiad o £150 miliwn.

O 2021, bydd y rhaglen llifogydd graidd, yn amodol ar gyllid, yn parhau i ddarparu buddsoddiad mewn cynlluniau rheoli perygl llifogydd a'r arfordir ledled Cymru. Yn unol â'r rhaglen graidd, bydd cynlluniau'r dyfodol sy'n cael eu cynnig gan awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu blaenoriaethu yn ôl risg, gan ddefnyddio'r gofrestr Cymunedau mewn Perygl a gwybodaeth leol ym mhob achos busnes.

Mae swyddogion wrthi'n datblygu piblinell o gynlluniau awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi'u cynllunio y tu hwnt i fis Mawrth 2021, felly, er nad ydym yn gallu gwarantu cyllid, gellir gwneud achos cryf dros barhau i fuddsoddi.

Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-20, byddwn yn cynnal adolygiad yng nghanol y rhaglen gyda Thrysorlys Cymru ac awdurdodau lleol ynghylch cynnydd y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol fel mecanwaith cyllid a'r galw am gyllid tymor canolig a hir ar gyfer gwaith arfordirol.

**Amserlen:** Adolygiad yng nghanol y rhaglen i'w gwblhau ym mis Mawrth 2020
**Arweinydd:** Llywodraeth Cymru

**Argymhelliad 10** Mae'r pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymgymryd ag archwiliad bob dwy flynedd i sicrhau bod y lefelau staffio a'r sgiliau angenrheidiol ar gael o fewn Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i gyflawni amcanion y Strategaeth Genedlaethol.

**Ni dderbyniwyd** Mae Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am eu lefelau staffio eu hunain; serch hynny, fel rhan o'r gwaith o reoli'r prosiect, mae disgwyl i'r sefydliadau hyn ystyried materion ynghylch capasiti a'r hyn y mae angen ei wneud i gyflenwi'r rhaglen. Mae awdurdodau lleol yn gallu gwneud cais am gostau staff yn eu cynigion blynyddol ar gyfer Grant Refeniw Sengl Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, a gall awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru gynnwys costau staff cysylltiedig â chynlluniau cyfalaf yn eu ceisiadau am waith.

Mae archwiliadau diweddar (yn fewnol a chan Swyddfa Archwilio Cymru) wedi bod yn ddefnyddiol o ran codi cwestiynau ynglŷn ag adnoddau yn y mannau cywir. Mae'r rhain wedi cael eu hategu gan adolygiad o sgiliau rheoli perygl llifogydd mewn awdurdodau lleol a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (yn 2015), ac yn dilyn hyn darparwyd hyfforddiant ychwanegol.

Yn ogystal, mae adroddiadau Adran 18 bob dwy flynedd ynghylch y gwaith o weithredu trefniadau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd nid yn unig yn gwella'r broses hon, ond bydd yn gallu gwneud sylwadau annibynnol am yr adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y rhain, gyda'i gilydd, ac yn taro cydbwysedd teg o ran adolygu, craffu a rhoi cyngor.